

Llid yr ymennydd



Cardiau chwarae rôl: **Llid yr ymennydd**

Beth sy'n digwydd?

Mae teulu'n eistedd yn eu lolfa yn gwylio'r teledu gyda'i gilydd. Mae'r hynaf o'r ddau frawd/chwaer wedi bod yn cwyno am symptomau tebyg i'r fflw drwy'r dydd.

Cardiau chwarae rôl:
Llid yr ymennydd

Syniadau

Rolau

Sesiwn ôl-drafod

- Gosodwch rai cadeiriau i fod yn debyg i sofffa a chadair freichiau.
- Diffoddwch y goleuadau ar ddechrau'r chwarae rôl a rhoi'r golau ymlaen yn ystod yr olygfa.
- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.
- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
- Beth ddigwyddodd i'r unigolyn oedd â llid yr ymennydd? Pa arwyddion o lid yr ymennydd a welwyd?
- Sut wnaeth y cynorthwydd eu helpu?
- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

Cardiau chwarae rôl: **Llid yr ymennydd**

Brawd/chwaer hŷn gyda symptomau

Mae'r unigolyn hwn ar gadair yn gwylio'r teledu gyda'i riant. Mae'n teimlo'n sâl iawn. Mae'n teimlo'n boeth ac yna'n oer. Mae ganddo gur pen o ddiffod, ac mae'n teimlo'n ddolurus drosto.

Nid yw'n hoffi'r golau yn yr ystafell, felly mae'n gofyn i'w riant ei ddiffodd. Mae ei wddf yn stiff iawn felly nid yw'n gallu symud ei ben mewn gwirionedd. Mae'n siŵr mai dim ond y fflw sydd arno.

Cardiau chwarae rôl: **Llid yr ymennydd**

Brawd/chwaer iau – cynorthwydd

Mae'r unigolyn hwn wedi gorffen ei waith cartref ac yn mynd i lawr y grisiau i wyllo'r teledu gyda'i deulu. Maent yn eistedd yn y tywyllwch, felly mae'n troi'r golau ymlaen wrth fynd i mewn i'r ystafell.

Mae ei frawd/chwaer hŷn yn flin – mae'r golau yn brifo ei lygaid ac mae ganddo gur pen drwg iawn.

Mae'n eistedd i lawr ond yn dal i edrych ar ei frawd/chwaer. Mae'n edrych yn sâl iawn ac yn rhwbio ei wddf ac yn cysgodi ei lygaid. Mae'n meddwl ei fod yn waeth na'r fflw. Mae'n dweud wrth y riant ei fod yn meddwl y dylent ffonio 999. Er bod y riant yn dweud nad oes angen gwneud hynny, maent yn ffonio 999 beth bynnag. *"Mae'n well bod yn or-ofalus"*, maent yn dweud.

Cardiau chwarae rôl: **Llid yr ymennydd**

Gwyliwr – rhiant

Mae'n gwylio'r teledu gyda'i blentyn hynaf. Mae'r plentyn wedi bod yn teimlo'n sâl drwy'r dydd ac rydych chi wedi bod yn gofalu amdano. Mae'n dweud bod y golau'n brifo ei lygaid, felly mae'n diffodd y prif olau.

Mae'r plentyn ieuengaf yn dod i mewn ac yn troi'r golau ymlaen. Mae'n meddwl y gallai cyflwr ei frawd/chwaer fod yn rhywbeth difrifol. Mae'n dweud wrth y plentyn iau ei fod yn gorymateb – dim ond byg sy'n mynd o gwmpas ar hyn o bryd.